# Consesiynau Arlwyo

# EISTEDDFOD Wrecsam

2–9 Awst 2025











Mae gan Eisteddfod Genedlaethol Cymru Wrecsam y cyfleoedd canlynol ar gael trwy dendr

- **Y Pentref Bwyd ( unedau arlwyo symudol)**
- **Cynigion manwerthu eraill**
- **Platiad a chynigion arlwyo eraill ar ffurf bwyty**
- **Hufen ia**
- **Arlwyo a siop ar y Maes Carafanau**
- **Maes B**
- **Ffreutur Criw'r Maes**

**Dyddiad cau ar gyfer cynigion tendr: 12:00, 17 Chwefror 2025**

Rhaid anfon pob cynnig at

tarlwyo@eisteddfod.cymru

**Darllenwch yn drwyadl os gwelwch yn dda, hyd yn oed os ydych wedi masnachu yn yr Eisteddfod yn y gorffennol**

Manylion a dogfennau i'w darparu gyda'r cynnig i gynnwys:

- Ffurflen gynnig wedi'i chwblhau a'i llofnodi
- Unrhyw ddogfennau ategol eraill

# 1. Cefndir

Gŵyl yr Eisteddfod yw pinacl calendr diwylliannol Cymru, ac fe'i cynhelir yn flynyddol yn ystod wythnos gyntaf mis Awst. Mae'r Brifwyl yn gymysgedd eclectig o'r hen a'r newydd, y traddodiadol a'r modern. Gan asio'r ochr seremonïol a swyddogol gyda gŵyl ddeinamig, ifanc ei hysbryd a chroesawgar, rydym yn cynnig rhywbeth i bawb – beth bynnag eu diddordebau a'u hoed.

Rydym yn ŵyl deithiol, yn ymweld â gogledd a de Cymru bob yn ail. Cynhelir Eisteddfod 2025 yn Wrecsam o 2-9 Awst.
Os nad ydych yn gyfarwydd â'r Eisteddfod Genedlaethol a'i gweithgareddau, ewch i'n gwefan, www.eisteddfod.cymru am ragor o wybodaeth.

## 2. Prif egwyddorion

Rydym yn chwilio am gyflenwyr all gynnig cynnyrch o safon a gwasanaeth proffesiynol ar gyfer gŵyl a all ddenu cynulleidfaoedd niferus (15,000-20,000 y dydd).  Mae'r ŵyl yn denu tua 175,000 o ymwelwyr bob blwyddyn.

Mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn gweithio tuag at gael ei achredu fel gŵyl gynaliadwy. Fel rhan o Bolisi Bwyd Cynaliadwy'r Eisteddfod, bydd rheidrwydd arnoch i'n cynorthwyo trwy nodi eich ymrwymiadau yn y meysydd canlynol: Tarddiad Lleol, Masnach Deg, Bwyd Iach a Lleihau Gwastraff. Gweler Atodiad 1 am ragor o fanylion. Bydd yr Eisteddfod Genedlaethol yn ystyried eich ymrwymiadau cynaliadwyedd fel rhan o'r criteria dewis i ddethol cynigion llwyddiannus. Anogir ymgeiswyr i gynnwys eu polisïau cynaliadwyedd neu unrhyw ddatganiadau ategol gyda'u cynigion.

Bydd rhaid i arlwywyr gydymffurfio â Rheoliad Gwybodaeth am Fwyd i Ddefnyddwyr Rhif 1169/2011 yr UE. Ceir manylion yma.

Mae gan yr Eisteddfod, yn flynyddol, nifer o ymwelwyr byddar ac anabl. Mae pob un ohonynt yn gwneud defnydd o fasnachwyr ac rydym yn ymrwymo i wneud yr ŵyl mor hygyrch â phosibl. Mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn gweithio tuag at wobr aur gan 'Attitude is Everything' a gofynnwn i'n arlwywyr gefnogi ein hymrwymiadau. Gweler Atodiad 2 am ragor o fanylion.

Mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn rhoi pwyslais ar brynu cymaint o gynnyrch â phosibl yn lleol. Mae trigolion Rhondda Cynon Taf wedi cefnogi ymgyrchoedd codi arian yr Eisteddfod yn hael iawn ac felly yr ydym am geisio gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau fod busnesau'r sir yn ymelwa o ddyfodiad yr Eisteddfod i'r ardal. Felly gofynnwn yn garedig i chwi i wneud popeth o fewn eich gallu i brynu eich cynhwysion gan gwmnïau sydd â chysylltiadau â'r sir.

Eleni eto, rydym yn cydweithio â **Bwydydd Castell Howell** i gynnig cynnyrch safonol a nhw yw'r **cyflenwyr sydd yn cael eu ffafrio gan yr Eisteddfod Genedlaethol**. Mae Bwydydd Castell Howell yn gyfarwydd i lawer ac maent wedi gwasanaethu  arlwywyr sawl Eisteddfod dros y blynyddoedd. Darperir rhestr cyswllt o arlwywyr i Bwydydd Castell Howell.

Fe'ch anogir ble bynnag mae'n bosibl i gynnig opsiynau iach yn ogystal ag opsiynau i rai sydd ag alergeddau (i'w nodi yn yr adran Bwyd Iach ar eich Ffurflen Gynnig), er enghraifft:

- ffrwythau ffres
- sudd ffrwythau heb ei felysu a dŵr mwynol
- dewis o laeth sgim neu hanner sgim
- cynnyrch taenu braster isel
- dewis o fara cyflawn neu fara gwyn
- di-glwten
- di-gnau
- dim cynnyrch llaeth
- torri'r braster a/neu'r croen oddi ar gig
- dewis o bysgod
- cynnig dresin salad braster isel
- dewis o lysiau mewn saladau

Rhaid i bob masnachwr arddangos rhybudd alergen ar eu stondin, naill ai'n hysbysu cwsmeriaid o'r alergenau a allai fod yn bresennol yn eu bwyd neu'n annog y cwsmer i ofyn i staff am unrhyw alergenau o leiaf. Nodwch yn glir yr opsiynau heb glwten / heb gnau a heb laeth ar eich bwydlen ar y Ffurflen Gynnig.

Taliadau
Ffi consesiwn (+ bond sbwriel / gwyrdd, trydan, dŵr, Wifi)
Bydd trosfar o 25% ar eich ffi consesiwn yn cael ei dalu ar ddiwedd y digwyddiad os ydych chi wedi cyrraedd y swm trosfar. Anfonir anfoneb am unrhyw arian sy'n weddill atoch. Bydd Z yn cael ei gymryd gan gynrychiolydd yr Eisteddfod ar ddechrau a diwedd pob diwrnod.

## 3. Y Gymraeg

Mae'n rhaid i'r deiliaid consesiwn ddarparu arwyddion a deunydd yn y Gymraeg gan nodi yn glir pa gynnyrch sydd ar werth ymhob uned. Caniateir defnyddio unrhyw iaith arall gyda'r Gymraeg, ond dylid rhoi blaenoriaeth i'r Gymraeg, e.e. dylai'r prif hysbysfwrdd ar do'r uned fod yn y Gymraeg gan nodi beth yw'r prif gynnyrch a weinir. Bydd cymorth ar gael i gyfieithu os fydd angen.

Rhaid i **o leiaf un aelod o staff ym mhob shifft siarad Cymraeg** ac mae cymorth ar gael i recriwtio siaradwyr Cymraeg trwy wefan yr Eisteddfod. Rhaid sicrhau y bydd unrhyw ddeunyddiau hyrwyddol yn rhoi blaenoriaeth i'r Gymraeg.

## 4. Maes yr Eisteddfod

Lleolir Maes yr Eisteddfod ar gyrion dinas Wrecsam.

Bydd un ardal fwyd (Y Pentref Bwyd) gydag ardal dan do gydag eisteddle.
Bydd hyd at 15 o unedau yn cael eu lleoli yn Y Pentref Bwyd.

Lleolir bar trwyddedig yn agos at y patio bwyd mewn ardal y rhagwelir a fydd yn brysur iawn. Mae gwerthiant alohol a chynnyrch di-alcohol o dan gytundeb.

Darperir lle cyfyngedig i offer ac unedau ategol y tu ôl i bob uned. **Nid oes modd defnyddio'r unedau yma fel unedau lletya.** Manylion i'w darparu ar y Ffurflen Gynnig.

Darperir Maes Gwersylla i'r arlwywyr roi carafanau / pebyll ac undeau lletya. Bydd yr Eisteddfod yn darparu unde ymolchi / cawod. Lleolir y Maes Gwersylla yn agos i'r Maes. NI FYDD MODD I UNRHYW FASNACHWR/PERSONAU AROS Y TU ÔL I'R UNEDAU ARLWYO NAC AR Y MAES DROS NOS. Manylion i'w darparu ar y Ffurflen Gynnig.

·Cyn cyrraedd y safle, rhaid i gonsesiynwyr ddarparu rhestr o staff fydd yn aros dros nos yn yr ardal gwersylla ar gyfer rhesymau diogelwch ac achredu.

Prif Weithredwr yr Eisteddfod fydd â'r hawl i ganiatáu lleoli safleoedd manwerthu symudol eraill ar y Maes, a chroesewir syniadau a chynigion newydd a gwahanol. Croesewir cynigion megis ger Caffi Maes B neu ger y Pafiliwn.
Mae gan yr Eisteddfod yr hawl i gynnig consesiwn o'r fath i fwy nag un arlwywr.

Bydd cyfleoedd eraill yn ystod yr wythnos i ddeiliaid consesiwn a benodir i ddarparu gwasanaeth Platiad mewn perthynas â digwyddiadau a lletygarwch corfforaethol ar y Maes.

## 5. Gweithgareddau ac oriau masnachu

Mae niferoedd presenoldeb dyddiol yr Eisteddfod yn amrywio rhwng 15,000 a 20,000.

Mae Maes yr Eisteddfod ar agor pob dydd am 08:00-00:00 yr hwyr. Ceir mynediad i'r Maes tan 21:30 ond gall adloniant ar y maes rhedeg tan 23:00. Disgwylir i'r unedau arlwyo yn y Pentref Bwyd fod ar agor rhwng 12:00 – 21:00 yn ystod wythnos yr Eisteddfod (Sadwrn – Sadwrn,) Penderfyniad deilydd y consesiwn fydd agor tu hwnt i'r oriau yma. Noder mai 10:00 – 18:00 yw oriau agor masnachwyr (nid arlwywyr) o gwmpas y Maes.

Yn ychwanegol i'r adloniant nosweithiol a gynigir yn y Pafiliwn bydd adloniant ategol yn cael ei ddarparu ar Faes yr Eisteddfod (yn bennaf ar Lwyfan y Maes) fydd yn hwb sylweddol i werthiant hwyr o fwyd a diod yn ystod yr ŵyl, yn enwedig yn ystod ail hanner yr wythnos.

# 6. Gwasanaethau

Darperir un pwynt ‘hook up’ trydan (16 amp neu 32 amp – single phase) yn rhad ac am ddim. Nodwch os ydych yn dymuno 16amp neu 32amp ar y ffurflen gynnig.

Bydd modd cael at ‘bibau sefyll’ cyflenwad dŵr yfed yn ogystal â gallu defnyddio tanc dŵr gwastraff canolog yn rhad ac am ddim.

Ni chaniateir cysylltiad uniongyrchol i’r bibell ddŵr. Gallai unrhyw gysylltiad, heb awdurdod, arwain at lygru’r cyflenwad dŵr. Os oes amheuaeth bod risg o lygru, yna byddwch yngyfrifol am gostau datgysylltu, clorineiddio, samplo, profion labordy ac ail-gysylltu.

Bydd unrhyw anghenion trydan ychwanegol neu/ danc dŵr gwastraff uniongyrchol i’ch stondin, yn gost ychwanegol ar y cyfraddau isod + TAW:

| Cyflenwad trydan | Pris |
|---|---|
| Ffâs Sengl<br>(cysylltiad plwg glas, ceeform)<br>- 16 amp  | £370.00 + TAW |
| - 32 amp | £602 + TAW |
| - 63 amp | £1,163.00 + TAW |
| 3 ffas (cysylltiad plwg coch, ceeform)<br>32 amp  | £1,471.00 + TAW |
| 63 amp | £1,691.00 + TAW |

| Cyflenwad dŵr | Pris |
|---|---|
| Tap dŵr / cysylltiad dŵr uniongyrchol i'ch stondin | £419.00 + TAW |
| Cyflenwad dŵr a thanc gwaredu dŵr gwastraff eich hunain (dim sinc) | £610.00 + TAW |

Bydd yr Eisteddfod yn darparu gwasanaeth casglu gwastraff (sych a gwlyb) a man canolog i gasglu olew gwastraff i'r unedau a leolir yn Y Pentref Bwyd yn ogystal â'r safleoedd eraill lle lleolir yr unedau symudol a manwerthu.

Bydd yr Eisteddfod yn disgwyl cydweithrediad llwyr deilyddion y consesiynau gyda threfniadau rheoli gwastraff ac ailgylchu.

Cyfrifoldeb ymgeiswyr y consesiwn fydd ein hysbysu yn y Ffurflen Gynnig am anghenion gwasanaethau penodol eraill.

Cyfrifoldeb deiliad y consesiwn fydd talu unrhyw gostau eraill fydd yn gysylltiedig â gweithredu'r consesiwn gan gynnwys darparu uned addas a phwrpasol.

Rhaid i'r unedau arlwyo ddarparu ardaloedd paratoi, gweini a storio bwyd addas a digonol yn unol â gofynion rheoliadau hylendidbwyd cyfredol.

Cyfrifoldeb deiliad y consesiwn fydd cyflawni asesiad risg ac asesiad risg tân digonol. Dim ond un botel o nwy (neu ddigon am ddiwrnod) ddylid ei gadw ger yr uned. Bydd yr Eisteddfod yn darparu rhestr gwirio i arlwywyr ac asesiad risg tân cyn y digwyddiad. Rhaid i bob arlwywr gwblhau'r asesiadau yma.

Bydd yn ofynnol i gonsesiynwyr feddu ar leiafswm indemniad o £1,000,000 dan eu hyswiriant i ateb gofynion atebolrwydd cyhoeddus. Bydd raid cael tystiolaeth o hyn cyn y caniateir mynediad ar y Maes.

Rhaid i arlwywyr gadw at Ganllawiau Cenedlaethol CIEH ar gyfer Arlwyo Awyr Agored a Symudol. Mae gan Swyddogion Iechyd a Diogelwch yr Eisteddfod yr hawl i gau stondinau masnachwyr a / neu waredu bwydydd os nodir risg i iechyd. Os fydd hyn yn digwydd, ni fydd trefnwyr yr Eisteddfod Genedlaethol yn atebol am golled ariannol nac enw da.

Bydd Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Wrecsam yn cynnal archwiliadau yn ystod yr wythnos. Disgwylir i fasnachwyr gydymffurfio'n llawn â deddfwriaeth berthnasol mewn perthynas â Safonau Masnach, Iechyd a Diogelwch a Hylendid Bwyd Cyngor RCT. Bydd stondinau yn cael eu harchwilio yn ystod y digwyddiad a gellir cau'r rhai y bernir nad ydynt yn cydymffurfio â rheoliadau perthnasol.

Mae arddangos eich Sgôr Hylendid Bwyd yn orfodol yng Nghymru. Diben y Cynllun Sgôr Hylendid Bwyd yw galluogi defnyddwyr i wneud dewisiadau gwybodus am y cyflenwyr bwyd a bod busnesau yn cael eu trin yn deg. Mae'r Cynllun Sgôr Hylendid Bwyd yn disgrifio busnesau sydd â sgôr o 3, 4 neu 5 yn 'cydymffurfio'n fras' gyda rheolau hylendid bwyd.

Bydd angen i fusnesau â sgôr yn is na 3 wella cyn cyrraedd y safon.Mae hawl gan drefnwyr yr Eisteddfod Genedlaethol i wrthod caniatâd i fusnesau sydd â sgôr hylendid bwyd yn is na 3 i fynychu'r ŵyl. Byddwn yn gwirio'r sgôr ar wefan Asiantaeth Safonau Bwyd (food.gov.uk/ratings) neu drwy gysylltu gyda'ch awdurdod lleol. Hefyd, os fydd eich sgôr yn gostwng ilai na 3 ar ôl derbyn eich cais gwreiddiol, mae gan y Trefnwyr yr hawl i wrthod mynediad.  Bydd rhaid i fusnesau newydd drefnu i gyflawni sgôr hylendid cyn cael caniatâd i fynychu'r ŵyl.

## 7. Proses Tendro: amseroedd a chriteria ar gyfer dewis

Rhaid i'r holl gynigion gyrraedd Swyddfa Eisteddfod Genedlaethol Cymru, 40 Parc Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd CF14 5DU neu ar e bost at arlwyo@eisteddfod.cymru erbyn 12.00 ar 17 Chwefror 2025.

Rhaid cwblhau'r Ffurflen Gynnig yn llawn er mwyn ystyried unrhyw gynnig.

Mae TAW yn daladwy ar bob cynnig ar y gyfradd briodol (20% ar hyn o bryd)

Asesir y cynigion a gwneir pob ymdrech i hysbysu'r cynigwyr llwyddiannus cyn canol Mawrth 2025.

Mewn amgylchiadau arbennig bydd yr Eisteddfod Genedlaethol yn dal yr hawl i gynnig consesiynau heb fynd trwy broses dendro agored wedi'r dyddiad cau e.e. cynigion yn cael eu tynnu yn ôl ayb.

Bydd y criteria dewis yn cynnwys:
(i) safon ac amrywiaeth y cynnig arfaethedig;
(ii) maint y tâl a gynigir am yr hawl i weithredu'r consesiwn;
(iii) gwerth am arian i'r ymwelwyr;
(iv) ymrwymiadau cynaliadwyedd yn cynnwys hybu cynnyrch Cymreig.

Bydd angen manylion llawn ynglŷn â'r cynnig ariannol i'r Eisteddfod er mwyn rhoi ystyriaeth i gynnig, gan gynnwys manylion ynglŷn â sut y gwneir y taliadau. Efallai y bydd angen, ar gais, i chi ddangos eich cyfrifon derbyniadau (trosiant) a thaliadau.

Bydd angen blaendal o 20% erbyn 10 Mai 2025, gyda'r gweddill yn daladwy erbyn 1 Gorffennaf 2025. Rhaid talu'r holl arian sy'n ddyledus i'r Eisteddfod cyn i'r arlwywyr gael eu caniatáu ar y Maes.

## 8. Lleoli a symud cerbydau ar y Maes

Bydd gwerth y cynnig yn ffactor wrth benderfynu ar leoliadau unedau.

Rhaid i arlwywyr gofrestru yn swyddfa'r Maes wrth gyrraedd.

Lleolir unedau o'r dydd Mercher cyn yr ŵyl. Bydd yr Eisteddfod yn gofyn am ddyddiad/amser cyrraedd cyn i'r ŵyl ddechrau.

Rhaid darparu manylion maint a chyfeiriad eu huned/au ar y Ffurflen Gynnig er mwyn hwyluso'r broses o gynllunio'r Maes.

Ni chaniateir tynnu lawr a symud unedau symudol tan ddydd Sul 10 Awst.

Caniateir cerbydau ar y Maes rhwng yr oriau **06:00 - 07:30**

## 9. Cyfleoedd i Weithredu Consesiynau ar y Maes

(a) Y Pentref Bwyd (Unedau Arlwyo Symudol)

Mae darpariaeth arlwyo symudol yn rhan bwysig o’r profiad Eisteddfodol.

Yn ardal Y Pentref Bwyd bydd Llwyfan y Maes gyda safle eistedd cysgodol. Yma lleolir hyd at 15 uned arlwyo symudol.

Bydd yr arlwywyr symudol yn elwa hefyd o fod yn agos at y bariau trwyddedig a Llwyfan y Maes yn Y Pentref Bwyd.

Ystyrir cynigion am y canlynol:

- Bwyd Asiaidd
- Bwyd Ewropeaidd
- Cig eidion
- Cyw iâr a/neu dwrci
- Pysgod a sglodion
- Tatws trwy’u crwyn
- Cig oen
- Pizzas
- Porc
- Brechdanau, bagets, lapiadau (wraps), paninis a toasties
- Arbenigol e.e. Bwyd môr, tapas
- Halal
- Melysion
- Bwyd llysieuol a fegan
- Cynnyrch helgig

Yn ddibynnol ar amrywiaeth y cynigion a dderbynnir, gall gwerthiant o’r math uchod gael ei gyfyngu i un uned ar y patio, ond rhoddir yr hawl i werthu sglodion, opsiwn llysieuol a fegan; diodydd ysgafn a the a choffi sydd ddim yn arbenigol i’r holl unedau. Rhaid nodi eich bwydlen gyflawn ar y Ffurflen Gynnig.

Bydd yr arlwywyr llwyddiannus yn darparu bwydlen a phrisiau plant gan y bydd nifer o’r cwsmeriaid yn deuluoedd ifanc. Bydd angen nodi hyn yn glir ar y bwydlenni yn ystod yr ŵyl.

## 9. Cyfleoedd i Weithredu Consesiynau ar y Maes

### (b) Cynigion Manwerthu Eraill

Fe ystyrir awgrymiadau ar gyfer unedau ychwanegol mewn safleoedd penodol o amgylch Maes yr Eisteddfod (er enghraifft ger Caffi Maes B/ ger y Pafiliwn) Gellir cynnig am safleoedd penodol gydag unrhyw gynnig.

- Croesewir cynigion am gyfleon manwerthu ychwanegol megis:
- Bariau Coffi Masnach Deg
- Llaeth, suddion, diodydd e.e.'smoothies' neu ddiodydd iâ
- Dŵr
- Ffrwythau ffres
- Melysion a danteithion
- Arall

Rhagwelir yr angen am hyd at chwech bar coffi Masnach Deg ar Faes yr Eisteddfod. Dwy uned ar y Maes gyda'r bedair uned arall o fewn neu ger y lleoliadau canlynol: Canolfan Ymwelwyr, Pentref Plant, tu allan i'r Pafiliwn ac ardal Artisan (unedau crefftau).

### (c) Hufen Iâ

Mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn awyddus i hyrwyddo a chefnogi cynhyrchwyr a gwerthwyr hufen iâ Cymreig. Disgwylir ymrwymiad clir i werthu hufen iâ Cymreig fod yn rhan o unrhyw gynnig a dylid rhoi pwyslais i safon y cynnyrch, pris, a gwasanaeth.

Er mwyn rhoi pob cyfle i fusnesau bach / lleol i fanwerthu yn yr Eisteddfod, ystyrir ceisiadau am y chwe, pedair neu ddwy uned hufen iâ.

Croesewir cynigion am y canlynol:
1c. Chwe Uned Hufen Iâ
2c. Pedair Uned Hufen Iâ
2c. Dwy uned Hufen Iâ

Rhaid i gynigion am Unedau Hufen Iâ nodi am ba gategori yr ymgeisir amdanynt, e.e. 1c, 2c neu 3c. Bydd gwerth y cynnig yn ffactor wrth benderfynu ar leoliadau unedau hufen iâ gyda'r consesiynwr/wyr llwyddiannus.

Bydd gan y consesiynwr llwyddiannus yr hawl i'r unedau hufen iâ ar draws y Maes ond bydd gan arlwywyr eraill hawl i ddefnyddio hufen iâ fel ychwanegiad i'w bwydlenni (er enghraifft brownies gyda hufen iâ neu smoothies/ysgytlaeth.)

Anogir arlwywyr eraill i ddefnyddio hufen iâ'r consiesynwr llwyddiannus lle mae'n bosib.

## (ch) Rheoli Platiad a chynigion arlwyo eraill ar ffurf bwyty amgen

Bydd bwyty Platiad yn drwyddedig.

Bydd Platiad yn cynnwys bar/caffi cyfoes gyda lle i 54 tu fewn a 34 tu allan. Gall yr Eisteddfod ddarparu prisiau am ofodau addas. Codir tâl am unrhyw anghenion trydan a dŵr yn ogystal.

Fel prif safle arlwyo'r Eisteddfod, mae'n rhaid i Platiad apelio at gwsmeriaid sy'n disgwyl bwyd o safon uchel. Bydd hyn yn golygu creu bwydlen ar gyfer diwrnod cyfan wedi ei chynllunio yn ofalus i gymryd ystyriaeth o'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig ag arlwyo allanol.

Bydd deilydd llwyddiannus y consesiwn yn darparu bwydlen a phrisiau plant gan y bydd nifer o'r cwsmeriaid yn deuluoedd ifanc.

Byddwn yn disgwyl gweld pwyslais ar gynnyrch Cymreig sy'n adlewyrchu Cymru, cogyddiaeth Gymreig a rysetiau Cymreig.

Mae'n rhaid i unrhyw un sy'n bwriadu cynnig tendr i redeg Platiad nodi Platiad ar y Ffurflen Gynnig, a chytuno i gydymffurfio ag Isafswm Safonau Gwasanaeth (Atodiad 1).

### ** Bariau alcohol a di-alcohol

Ar wahân i Fwyty Platiad, mae gwerthiant alcohol a chynnyrch di-alcohol o dan gytundeb.

## 10. Cyfleoedd i Weithredu Consesiynau tu allan i'r Maes

(a) Maes Carafanau a Gwersylla Swyddogol

Yn 2025 bydd y Maes Carafanau ger Maes yr Eisteddfod a bydd ar agor rhwng 14.00 Dydd Iau 31 hyd at 14.00 Ddydd Sul 10 Awst.

Disgwylir tua 1,200 o garafanau a phebyll am yr wythnos ar y Maes Carafanau a Gwersylla Teuluol. Mae'n rhan greiddiol o'r profiad Eisteddfodol ac yn boblogaidd iawn â theuluoedd. Os ydych yn chwilio am gyfle i ddarparu gwasanaeth arlwyo safonol yn cynnig gwerth am arian i deuluoedd ifanc, fe all y maes carafanau fod y lle delfrydol i chi.

Rhagwelir y bydd cyfle i ddarparu cyfleusterau bwyty a/neu hyd at dwy uned arlwyo symudol yn ystod yr wythnos ar Faes Carafanau swyddogol yr Eisteddfod yn 2025.

Yr arlwywr penodedig fydd yn gyfrifol am godi a thynnu unrhyw adeilad/au addas heb gost i'r Eisteddfod.

Codir tâl am unrhyw anghenion trydan a dŵr.

·Mae'n rhaid i unrhyw un sy'n bwriadu cynnig tendr i arlwyo ar y Maes Carafanau nodi Arlwyo Carafanau ar y Ffurflen Gynnig.

·Mae'n rhaid i unrhyw un sy'n bwriadu cynnig tendr i redeg Siop ar y Maes Carafanau nodi Siop Carafanau ar y Ffurflen Gynnig.

(b) Maes B www.maesb.com

·Lleolir Maes B ar safle yn hwylus i Faes yr Eisteddfod a bydd yn weithredol rhwng prynhawn Mawrth 5 Awst tan ddydd Sul 10 Awst. Bydd gigs Maes B yn cychwyn o nos Fercher 6 Awst tan nos Sadwrn 9 Awst.

Maes B yw brawd bach swyddogol yr Eisteddfod liwnos, lleceirperfformiadaugandros 20 o briffandiau Cymru. Maes B yn boblogaidd iawn gydag Eisteddfodwyr iau (16 oed i fyny) gyda nifer yn gwersylla mewn ardal ddynodedig gerllaw (Maes pebyll). Mi fydd gan Maes B gapasiti nosweithiol o hyd at 5,900 o bobl.

Rhaid i'r arlwywyr llwyddiannus fod yn weithredol tan 14:00 ar ddydd Sul 10 Awst. Gellir lleoli hyd at ddwy uned arlwyo yn Maes B.

Mae'n rhaid i unrhyw un sy'n bwriadu cynnig tendr i arlwyo ar Maes B nodi Arlwyo MaesB ar y Ffurflen Gynnig.

**(c) Ffreutur Criw'r Maes**

Mae'r ffreutur ar gyfer staff a chontractwyr y Maes yn adnodd pwysig iawn, gan sicrhau fod gweithwyr yn medru prynu prydau bwyd yn gyfleus ar y safle heb orfod colli a gwastraffu amser. Gellir disgwyl llif cyson o gwsmeriaid yn ystod y dydd yn arbennig ar gyfnodau brecwast, cinio a swper. Os ydych yn chwilio am gyfle i ddarparu gwasanaeth arlwyo a rhedeg ffreutur brysur am ryw 7 wythnos, fe all ffreutur y staff fod yn gyfle gwych i chi.

Bydd y ffreutur yn weithredol o ddechrau Gorffennaf tan ganol Awst.

Bydd yr Eisteddfod yn gyfrifol am ddarparu adeilad heb unrhyw gost i'r arlwywr penodedig.

Disgwylir i ddeilydd y consesiwn fod yn gyfrifol am redeg y ffreutur gan gynnwys archebu, cynnal a chadw stoc a defnyddiau traul y gegin.

Bydd y ffreutur yn gweini a pharatoi brecwast, cinio a phryd bwyd fin nos gan gymryd ystyriaeth y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig ag arlwyo allanol. Gellir trafod yr oriau agor.

Disgwylir i'r pwyslais fod ar ddarparu bwydlen resymol a chystadleuol.

Ni fydd ffreutur y staff ar agor i'r cyhoedd yn ystod wythnos yr Eisteddfod.

Mae'n rhaid i unrhyw un sy'n bwriadu cynnig tendr i redeg y gwasanaeth y ffreutur nodi Ffreutur Criw'r Maes ar y Ffurflen Gynnig.

## Atodiad 1 – Polisi Bwyd Cynaliadwy

Fel rhan o bolisi ac ymrwymiad yr Eisteddfod Genedlaethol i weithredu'n fwy cynaliadwy, bydd disgwyl cymorth a chydweithrediad yr arlwywyr ar y Maes. Bydd eich ymrwymiadau'n cael eu hystyried yn rhan o'r broses ddethol – ewch i The Good Food for Festivals Guide am gyngor ac arweiniad, www.agreenerfestival.com/initiatives/

Mae amaethyddiaeth a bwyd erbyn hyn bron yn gyfwerth â 30% o'r holl nwyddau a gludir ar ein ffyrdd sy'n cael effaith sylweddol ar ein hamgylchedd. Ond nid y pellter y cludir ein bwyd o'r cae i'r plât yn unig ydyw, mae'r bwyd yr ydym yn ei brynu yn cael effaith aruthrol ar ein hiechyd ac economi leol yn ogystal.

Beth a olygir gan fwyd cynaliadwy?

- Cefnogi'r economi leol trwy brynu bwyd mor lleol â phosibl
- Lleihad mewn prosesu a phecynnu
- Bwyta bwyd yn ei dymor
- Ffermio cynaliadwy, gyda safonau amgylcheddol uchel a lleihad mewn defnydd ynni gan ddefnyddio dulliau llai dwys a llai o gemegau a gwrtaith
- Hyrwyddo lles anifeiliaid a gwerthfawrogi natur a bioamrywiaeth
- Prisiau teg, Masnach Deg a chyflogaeth foesol yn y DU a thramor
- Mynediad i fwyd iach

**Tarddiad Lleol**

Rydym yn awyddus i weld y cynnyrch (lleol a chenedlaethol) gorau sydd yn ei dymor yn cael ei ddefnyddio. Nodwch o ble y daw eich cynnyrch crai (nid o ble y'i harchebir) gan gyfeirio yn benodol at unrhyw fwyd a chynnyrch lleol neu Gymreig yr ydych am ei ddefnyddio yn Eisteddfod 2025.

# Atodiad 1 – Polisi Bwyd Cynaliadwy

**TMasnach Deg**

Fel rhan o ymrwymiad yr Eisteddfod Genedlaethol i gefnogi llwyddiant Cymru o ddod y genedl Fasnach Deg gyntaf yn y byd, ein dyhead yw bod cynnyrch Masnach Deg yn cael ei defnyddio, ei hyrwyddo a'i gefnogi yn yr ŵyl.

Marc defnyddiwr annibynnol yw'r marc Masnach Deg sydd yn cael ei arddangos ar gynnyrch fel gwarant annibynnol fod cynhyrchwyr yn y byd datblygol wedi derbyn pris teg am eu cynnyrch. Maen nhw yn derbyn isafswm ar gyfer y gost o gynhyrchu yn gynaliadwy yn ogystal â phremiwm a fuddsoddir mewn prosiectau datblygiad cymdeithasol neu economaidd. Fel lleiafswm:

- Bydd y rhai sy'n cael consesiynau'n gweini te, coffi a siwgr Masnach Deg yn cael eu hannog yn gryf i ystyried defnyddio nwyddau eraill Masnach Deg megis siocled, ffrwythau, byr brydau a suddion
- Mae adnoddau, cysylltiadau a gwybodaeth bellach ar gael yma: www.fairtradewales.com

**Bwyd Iach**

Yr ydym fel gŵyl yn awyddus fod ein harlwywyr yn cynnig opsiynau iach o ran y bwyd a weinir yn arbennig ar gyfer ymwelwyr fydd â gofynion dietegol penodol e.e bwydydd di-glwten; cnau a chynnyrch llaeth ayb. Croesewir hefyd amrywiaeth o fwydydd llysieuol a fegan.

## Atodiad 1 – Polisi Bwyd Cynaliadwy

**Lleihau Gwastraff**

Er mwyn lleihau effaith yr ŵyl ar yr amgylchedd, rhaid defnyddio defnyddiau sy'n pydru'n hawdd, wedi'u gwneud o ddeunyddiau sydd wedi'u hailgylchu, neu sy'n hawdd i'w hailgylchu.

Disgwylir i chi yn ogystal leihau gwastraff a gynhyrchir, deunydd pacio gan wneud defnydd llawn o unrhyw gyfleusterau ailgylchu gwastraff a ddarperir a chefnogi ymrwymiad yr Eisteddfod i welliannau amgylcheddol parhaus.

Rhaid i bob cynhwysydd bwyd, deunydd pacio, platiau a chyllyll a ffyrc ayyb fod wedi'u gwneud o ddefnyddiau bioddiraddadwy fel papur a phren.

**Ni ddylid defnyddio polystyren ac unrhyw ddefnyddiau eraill na ellir eu hailgylchu.**

**Mae'r defnydd i welltyn plastic wedi'i gwahardd o'r maes ac rydym yn annog ein harlwywyr i ddefnyddio rhai papur os oes rhaid.**

**Ers 2019, rydym wedi gwahardd boteli plastig un-tro o'r Maes. Bydd angen i'r arlwywyr llwyddiannus ddarparu diodydd mewn caniau neu o ddefnydd arall yn hytrach na phlastig.**

**Ni chaniateir unrhyw blastig un-tro ar y maes.**

Ymwelwch â safleoedd tebyg i www.ripplecups.com <http://www.ripplecups.com> neu www.vegware.com <http://www.vegware.com> am wybodaeth bellach neu gwnewch ymholiadau gyda'ch cyflenwyr arferol.

**Bond Sbwriel / Bond Gwyrdd**

Bydd Bond Sbwriel / Gwyrdd yn cael ei weithredu yn 2025. Bydd taliad o £250 yn cael ei godi cyn y digwyddiad, yn ychwanegol at y ffi consesiwn. Bydd y bond yn cael ei ad-dalu unwaith y bydd y llain wedi'i archwilio a'r holl sbwriel a gwastraff wedi'i glirio'n foddhaol.

## Atodiad 2 – Canllawiau hygyrchedd i fasnachwyr

Mae gan yr Eisteddfod, yn flynyddol, nifer o ymwelwyr byddar ac anabl. Mae pob un ohonynt yn gwneud defnydd o fasnachwyr ac rydym yn ymrwymo i wneud yr ŵyl mor hygyrch â phosibl.

Felly, mae'n hanfodol bod holl fasnachwyr ar y safle, yn ystyried mynediad at eu gwasanaethau er mwyn darparu'r gwasanaeth gorau posibl. Mae'r canllawiau canlynol yn ymdrin ag ystod o bynciau yr ydym yn gofyn i chi eu hystyried a gwneud cynlluniau yn unol â hynny.

**Llwybrau Mynediad:**

- Rhaid i unrhyw lwybr (h.y. system ciwio) fod yn 1.2m o led er mwyn caniatáu mynediad gan ddefnyddwyr cadeiriau olwyn.
- Ni ddylai unrhyw rwystrau neu arwynebau diangen (h.y. grisiau) gael eu hychwanegu at lwybrau a allai effeithio ar fynediad i bobl ag anawsterau symud neu i bobl sydd â nam ar y synhwyrau.
- Dylid cael arwyddion clir, lle bo'n briodol, wrth ymyl llwybrau. Dylai unrhyw fynedfeydd/llwybrau hygyrch gael eu marcio gyda'r symbol cadair olwyn cyffredinol.
- Dylai unrhyw ramp a adeiladir fod o leiaf 1:12 mewn graddiant.

**Bariau a Chownteri:**

- Dylai masnachwyr sy'n darparu lefel neu fynediad drwy ramp i far/neu gownter hefyd ddarparu cownter is os yw'r bar/cownter yn uwch na 850mm. Os nad yw hyn yn ddiogel neu'n ymarferol, fydd rhaid gwneud addasiad er mwyn galluogi pobl i weld bwydlenni/prisiau a gallu archebu'n hawdd. Yn ymarferol bydd hyn yn ymglymu staff i dderbyn archebion yn syth drwy ddod i flaen y bar/cownter, cymryd arian, a dychwelyd gyda'r bwyd/diod a newid.
- Ni ddylai unrhyw gownter sydd wedi'i ostwng fod yn uwch na 850mm o'r llawr.
- Lle mae'n bosibl, dylai cynnwys encil o dan y cownter is er mwyn hwyluso cadeiriau olwyn.

Dylai unrhyw encil fod

- Uchder o'r llawr: 700-750mm
- Lled: o leiaf 600mm
- Dyfnder o dan y cownter: 400-500mm

Dylai pob bar/cownter isel cael ei leoli ar ddiwedd bar/cownter.

## Atodiad 2 – Canllawiau hygyrchedd i fasnachwyr

**Cymorth gyda 'Dewis y Cwsmer'**

- Lle mae rhestri diod, bwyd neu nwyddau ar gael, dylid cael argraff du bras (o leiaf 18 pt) ar gefndir gwyn wedi'i lamineiddio ar y bar/cownter.
- Rhaid ystyried bwydlenni sy'n cynnwys lluniau er mwyn bod y dewis yn fwy hygyrch i rai pobl.

Am ragor o wybodaeth a chyngor am gyfleusterau mynediad i bobl fyddar ac anabl ewch i www.eisteddfod.cymru/ymwelwyr-anabl neu cysylltwch â gwyb@eisteddfod.cymru.